
DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#3
gyda Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch:
• popty micro-don • talp o sebon o ansawdd da
Bonjour! Heddiw, rydym am greu celf â sebon.
Rhowch y sebon ar ddysgl yn y popty micro-don.
01:00
Cynheswch ef ar bŵer llawn am tua munud.
RHYBUDD: Efallai y bydd arogl cryf ar y sebon, felly peidiwch â gwneud hyn cyn cynhesu bwyd!
Beth ddigwyddodd?
00:00
Mae pocedi bach iawn o nwy yn y sebon yn poethi ac yn ehangu i bob cyfeiriad, gan wthio'r sebon i mewn i siapiau rhyfedd ac artistig.
Vic Le Billon
geiriau allweddol: thermodynameg